# Pennu Amcanion Llesiant – Cyngor Sir Ddinbych

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4063A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mewn achos o dderbyn cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer wrth ymdrin â cheisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Cefndir: ein harchwiliadau o bennu amcanion llesiant 4

Cynnal ein harchwiliad yng Nghyngor Sir Ddinbych 5

Sut a phryd y gwnaeth y Cyngor bennu ei amcanion llesiant 5

Yr hyn a ganfuwyd gennym: Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy drwy'r broses o bennu ei amcanion llesiant ac mae ganddo drefniadau eglur ar waith i gefnogi eu cyflawniad. Gallai ehangu ei weithgarwch ymgysylltu i gynnwys amrywiaeth fwy o drigolion gryfhau hyn ymhellach 7

Argymhellion 11

Atodiadau

Atodiad 1: Cwestiynau allweddol a'r hyn y chwiliwyd amdano gennym 12

# Cefndir: ein harchwiliadau o bennu amcanion llesiant

1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn gosod 'dyletswydd llesiant' ar 48 o gyrff cyhoeddus. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff hynny bennu a chyhoeddi 'amcanion llesiant' sydd wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at gyflawni pob un o saith nod llesiant cenedlaethol y Ddeddf[1]. Rhaid iddynt hefyd gymryd pob cam rhesymol, wrth arfer eu swyddogaethau, i gyflawni'r amcanion hynny.

2 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal archwiliadau i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant[2]. Rydym yn cynnal rhaglen dreigl o'r arholiadau hyn, hyd at ddechrau 2025[3].

3 Mae gwneud rhywbeth yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu gweithredu 'mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'. Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i gorff cyhoeddus ystyried y pum ffordd o weithio: hirdymor, integreiddio, cyfranogi, cydweithio ac atal[4].

4 Gwnaethom lunio fframwaith asesu i'n galluogi i asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant. Mae **Atodiad 1** yn nodi rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu, gan gynnwys set o 'ddangosyddion cadarnhaol' sy'n dangos sut beth allai da edrych.

5 Wrth ddylunio ein dull gweithredu, gwnaethom ystyried yr hyn y gallem ei ddisgwyl yn rhesymol gan gyrff cyhoeddus ar yr adeg hon. Dylai cyrff cyhoeddus nawr fod yn gyfarwydd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r ffyrdd o weithio a cheisio eu cymhwyso mewn ffordd ystyrlon. Ar yr un pryd, rydym yn gwerthfawrogi bod cyrff cyhoeddus yn dal i ddatblygu eu profiad wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant. Felly, mae'r archwiliadau yn cynnwys ystyried sut mae cyrff cyhoeddus yn cymhwyso eu dysgu a sut y gallant wella yn y dyfodol.

[1] Y saith nod llesiant cenedlaethol yw; Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynol, Cymru o ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus, a Chymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

[2] Adran 15 (1) (a) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

[3] Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal arholiadau dros y cyfnod a nodir yn y Ddeddf, sy'n dechrau flwyddyn cyn etholiad y Senedd ac sy'n dod i ben flwyddyn ac un diwrnod cyn etholiad y Senedd ganlynol.

[4] Adran 5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

# Cynnal ein harchwiliad yng Nghyngor Sir Ddinbych

6 Nod yr archwiliad hwn oedd:

- esbonio sut y gweithredodd y Cyngor yr egwyddor datblygu cynaliadwy drwy gydol y broses o bennu ei amcanion llesiant;
- rhoi sicrwydd i'r graddau y gweithredodd y Cyngor yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant; a
- nodi cyfleoedd i Sir Ddinbych ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy ymhellach wrth bennu amcanion llesiant yn y dyfodol.

7 Aethom ati i ateb y cwestiwn cyffredinol: 'i ba raddau y mae Sir Ddinbych wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei hamcanion llesiant newydd?'. Rydym wedi gwneud hyn drwy archwilio'r cwestiynau canlynol:

- A oedd y broses a roddwyd ar waith gan Sir Ddinbych i bennu ei hamcanion llesiant wedi'i seilio ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy?
- A yw Sir Ddinbych wedi ystyried sut y bydd yn sicrhau y gall gyflawni ei hamcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?
- A yw Sir Ddinbych wedi sefydlu trefniadau i fonitro cynnydd a gwella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei hamcanion llesiant?

8 Buom yn trafod amseriad yr archwiliad gyda Sir Ddinbych, ac fe wnaethom deilwra'r ddarpariaeth i adlewyrchu ei hamgylchiadau penodol.

9 Casglwyd ein tystiolaeth yn y ffyrdd canlynol:

- adolygu dogfennau allweddol; a
- chynnal nifer farch o gyfweliadau yn ogystal â'r uchod.

# Sut a phryd y gwnaeth y Cyngor bennu ei amcanion llesiant

10 Dechreuodd Sir Ddinbych ar y gwaith o bennu amcanion llesiant newydd yn ystod 2022 ac yna cyhoeddodd ei hamcanion, y mae'n eu galw'n themâu, ym mis Hydref 2022. Mae **Arddangosyn 1** yn nodi'r amcanion llesiant hynny.

11 Cyhoeddodd Sir Ddinbych ei hamcanion llesiant fel rhan o'i Chynllun Corfforaethol 2022-2027 a oedd yn cynnwys ei datganiad llesiant sy'n ofynnol o dan y Ddeddf. Gellir gweld y Cynllun Corfforaethol a'r amcanion llesiant ar wefan Sir Ddinbych.

12 O dan y Ddeddf, mae'n rhaid bod gan gyrff cyhoeddus ddatganiad llesiant. Nid oes yn rhaid i hwn fod yn ddogfen ar wahân a gellir ei gynnwys yng Nghynllun Corfforaethol (neu ddogfen gyfatebol) corff cyhoeddus. Mae Cynllun Corfforaethol 2022-2027 Sir Ddinbych yn gweithredu fel datganiad llesiant y Cyngor.

13 Pennwyd ei hamcanion llesiant yn dilyn proses o adolygu tystiolaeth, ymgysylltu â thrigolion a defnyddwyr gwasanaeth, ac ymgynghori â phartneriaid allanol.

14 Fe wnaeth y Cyngor hefyd rhoi gwersi a ddysgwyd o'i Gynllun Corfforaethol a'i amcanion llesiant blaenorol ar waith i hysbysu'r broses o bennu ei amcanion presennol.

**Arddangosyn 1: amcanion llesiant 2022-2027 Sir Ddinbych**

| | |
|---|---|
| **1.** | **Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sy'n bodloni anghenion pobl** |
| **2.** | **Sir Ddinbych ffyniannus** |
| **3.** | **Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus** |
| **4.** | **Sir Ddinbych sy'n dysgu a thyfu** |
| **5.** | **Sir Ddinbych sydd wedi cysylltu'n well** |
| **6.** | **Sir Ddinbych mwy gwyrdd** |
| **7.** | **Sir Ddinbych teg, diogel, a mwy cyfartal** |
| **8.** | **Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** |
| **9.** | **Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda ac sy'n uchel ei berfformiad** |

# Yr hyn a ganfuwyd gennym: Mae'r Cyngor wedi gweithredu'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy drwy'r broses o bennu ei amcanion llesiant ac mae ganddo drefniadau eglur ar waith i gefnogi eu cyflawniad. Gallai ehangu ei weithgarwch ymgysylltu i gynnwys amrywiaeth fwy o drigolion gryfhau hyn ymhellach

## Y broses ar gyfer pennu amcanion llesiant

### Sylfaen dystiolaeth

15 Defnyddiodd y Cyngor amrywiaeth eang o dystiolaeth o hysbysu'r gwaith o bennu ei amcanion llesiant, a'r brif ffynhonnell oedd asesiad llesiant byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Lluniwyd hwn yn 2022 ac mae'n cynnwys data gan amrywiaeth eang i bartneriaid a ffynonellau rhanbarthol a chenedlaethol, ac yn cynnwys data sy'n edrych ar dueddiadau'r dyfodol.

16 Mae'r asesiad llesiant hefyd yn cynnwys dadansoddiad o dueddiadau yn y presennol a'r dyfodol ac adolygiad a'r achosion sydd wrth wraidd problemau, yn ogystal â deall tueddiadau'r presennol a'r dyfodol.

17 Hefyd, defnyddiodd y Cyngor ddata perfformiad a oedd wedi'u cynnwys yn ei adroddiadau hunanasesu a chynlluniau busnes gwasanaethau.

### Ymgynghori a chyfranogi

18 Defnyddiodd y Cyngor amrywiaeth o dystiolaeth ymgynghori sylfaenol ac eilaidd i hysbysu'r gwaith o bennu ei amcanion llesiant.

19 Cynhaliodd 'Sgwrs y Sir', cyfres o weithdai a thri arolwg ar-lein gyda thrigolion, a hysbysodd y gwaith o bennu ei amcanion llesiant. Amserwyd yr arolygon i alluogi trigolion i hysbysu'r sylfaen dystiolaeth, i wneud sylwadau ar amcanion drafft ac i hysbysu cyfeiriad yr amcanion ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyngor Llawn. Yn ogystal â'r arolygon ar-lein, roedd trigolion yn gallu cael mynediad at yr arolygon yn hybiau a safleoedd y Cyngor, fel llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol.

20 Derbyniodd y Cyngor gyfanswm o 550 o ymatebion dros dri cham Sgwrs y Sir, ond ni lwyddodd i gyrraedd pob grŵp nas clywir yn aml. Mae'r Cyngor eisoes wedi myfyrio ar hyn ac wedi datblygu cynlluniau i newid gweithgarwch ymgysylltu yn y dyfodol a sicrhau y derbynnir amrywiaeth ehangach o safbwyntiau o'i weithgarwch ymgysylltu.

21 Hefyd, ymgysylltodd y Cyngor ag amrywiaeth o bartneriaid sector cyhoeddus a thrydydd sector, gan gynnwys undebau llafur, cynghorau tref a chymuned, Cyfoeth Naturiol Cymru a gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru.

22 Fe wnaeth y Cyngor hefyd ddefnyddio data ymgynghori eilaidd i hysbysu'r gwaith o bennu ei amcanion llesiant. Hysbyswyd yr Asesiad Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac Asesiad Anghenion y Boblogaeth y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gan ymarferion ymgynghori cyhoeddus.

### Integreiddio

23 Mae'r Cyngor wedi ystyried sut y gall ei amcanion wella llesiant a chael effaith eang. Mae gan Fyrddau Amcanion, sy'n gyfrifol am gynnydd a monitro pob amcan, Gylch Gorchwyl sy'n nodi sut y dylent ystyried rhyngddibyniaethau ag amcanion eraill a sut y gallant effeithio ar sefydliadau partner. Caiff amcanion nad ydynt wedi'u cefnogi gan Fwrdd eu goruchwylio gan Gyfarwyddwr Corfforaethol ac Aelod Cabinet Arweiniol sy'n cyfarfod bob tri mis i adolygu cynnydd a nodi rhyngddibyniaethau.

24 Mae diweddariad tri misol y Cyngor i'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys tystiolaeth o le mae gweithgarwch i gefnogi'r amcanion wedi cynnwys gweithio gyda phartneriaid allanol. Hefyd, cwblhaodd y Cyngor asesiad o'r effaith ar lesiant yn cwmpasu'r holl amcanion sy'n amlinellu eu cyfraniad posibl at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ac at y nodau llesiant cenedlaethol.

## Cyflawni'r amcanion llesiant

### Trefniadau

25 Mae gan y Cyngor amrywiaeth o brosesau ar waith i gefnogi cyflawniad ei amcanion llesiant.

26 Cefnogir pum amcan gan Fwrdd, wedi'i gadeirio gan Aelod o'r Cabinet. Mae'r Byrddau yn cyfarfod bob mis i adolygu gweithgarwch, risg a chyllid o fewn eu hamcanion. Amlinellir gweithgarwch a phrosesau'r Byrddau mewn dogfen 'Cylch Gorchwyl' sy'n cynnig canllawiau i Gadeiryddion ac aelodau'r Byrddau. Cefnogir y pedwar amcan sy'n weddill gan y Cyfarwyddwr a'r Aelod Cabinet priodol, sy'n cyflawni swyddogaeth a chyfrifoldebau Bwrdd.

27 Cefnogir pob amcan gan Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Strategol sy'n darparu cymorth rhaglen i'r Byrddau.

28 Mae'r Cyngor yn defnyddio dull rheoli prosiect i gofnodi gweithgarwch a gwybodaeth yn ymwneud â threfniadau i gyflawni ei amcanion llesiant.

29 Mae aelodau'r Byrddau Amcan yn cynnwys swyddogion ac Aelodau'r Cyngor, penderfyniad sy'n galluogi'r Cyngor i hyrwyddo atebolrwydd am ddarparu'r cynllun. Mae gan y Cyngor gynlluniau i sefydlu grwpiau cydweithredu ar gyfer pob amcan a

fydd yn cynnwys gweithwyr proffesiynol allanol a defnyddwyr gwasanaeth yn eu haelodaeth.

30 Byddai trefniant o’r fath yn sicrhau’r Cyngor ei fod yn gweithio ar y cyd â phartneriaid allanol.

### Adnoddau

31 Nid yw’r Cyngor wedi darparu adnoddau llawn ar gyfer gweithgarwch i gefnogi ei amcanion llesiant ar gyfer oes gyfan y Cynllun Corfforaethol ond mae ganddo brosesau ar waith i liniaru effaith unrhyw newidiadau i weithgarwch arfaethedig.

32 Pan gymeradwyodd y Cyngor ei Gynllun Corfforaethol a’i amcanion llesiant, nododd gyllid llawn ar gyfer gweithgarwch ym mlwyddyn gyntaf y cynllun yn unig. Dywedodd y Prif Swyddog Ariannol wrth y Cyngor llawn ar 11 Hydref 2022 bod y Cynllun Corfforaethol newydd arfaethedig yn uchelgeisiol iawn ac y bydd angen llawer iawn o adnoddau ariannol i lwyddo’n llawn.

33 Mae cyllid wedi’i nodi i gefnogi rhywfaint o weithgarwch y tu hwnt i’r flwyddyn gyntaf. Mae’r gweithgarwch arfaethedig sy’n weddill, nad yw wedi’i gostio na’i ariannu ar hyn o bryd, wedi cael ei drefnu dros bum mlynedd lawn y Cynllun Corfforaethol i wasgaru’r baich ariannol ar y Cyngor.

34 Mae’r Cyngor wrthi’n adolygu’r effaith y bydd yr hinsawdd ariannol bresennol yn ei chael ar ei allu i ariannu’r holl weithgarwch arfaethedig i gyflawni ei amcanion. Mae gan y Cyngor brosesau ar waith i sicrhau bod effaith unrhyw newidiadau i gyllid a gweithgarwch yn cael ei hystyried. Mae hyn yn cynnwys cwblhau asesiad o’r effaith ar lesiant a cheisio mewnbwn gan bartneriaid allanol cyn cymeradwyo unrhyw newidiadau.

35 Caiff argymhellion ar gyfer blaenoriaethu gweithgarwch yn seiliedig ar bwysau ariannu eu gwneud gan Benaethiaid Gwasanaethau i’r Aelod Cabinet priodol ac yna i’r Cabinet a’r Cyngor Llawn, sy’n gwneud y penderfyniad terfynol. Cefnogir y broses hon gan yr asesiadau effaith.

## Monitro’r amcanion llesiant

### Monitro a gwerthuso

36 Mae gan y Cyngor fesurau a threfniadau monitro ar waith i adolygu a deall cynnydd yn erbyn ei amcanion llesiant.

37 Caiff cynnydd yn erbyn pob amcan a gweithgaredd prosiect ei fonitro ei fesur gan ddefnyddio dangosyddion y cytunwyd arnynt, sy’n cynnwys allbynnau a chanlyniadau. Mae rhai mesurau yn gyfrif, yn ceisio dangos gwelliant (er enghraifft, nifer y bobl a oedd ar y Gofrestr Anghenion Tai Arbenigol Anableddau Cymhleth y sicrhawyd tai â chymorth ar eu cyfer), caiff eraill eu meincnodi yn erbyn perfformiad cenedlaethol ac maent yn dangos cyfeiriad teithio a pherfformiad o’u cymharu â

pherfformiad cenedlaethol (er enghraifft, canran y bobl o oedran gweithio sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith neu Gredyd Cynhwysol).

38 Hefyd, ceir uchelgeisiau amcan hefyd, sy'n fwy strategol eu rhagolwg ac yn cyfuno amrywiaeth o weithgarwch, yn aml mewn partneriaeth. Un enghraifft o hyn yw gwneud 1,000 yn rhagor o gartrefi ar gael yn Sir Ddinbych trwy ddarparu tai cyngor ychwanegol a gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a datblygwyr preifat. Rheolir y broses gan 'Ganllaw ar Fesur Perfformiad' y Cyngor.

39 Mae data perfformiad yn defnyddio'r ystod chwartel uchaf cenedlaethol fel eu meincnod a hefyd yn mapio'r cyfeiriad teithio. Diffinnir perfformiad yng nghanllaw'r Cyngor fel 'rhagorol', 'derbyniol', a 'blaenoriaeth ar gyfer gwella'. Dangosir cynnydd pob prosiect ar raddfa a ddiffinnir yng nghanllaw'r Cyngor, sy'n cynnwys 'ar y trywydd iawn', 'yn dioddef rhwystrau', ac 'mewn perygl', ac fe'i hategir gan adrodd am eithriadau ar gyfer prosiectau nad ydynt yn gwella.

40 Hefyd, adolygir pob amcan ddwywaith y flwyddyn gan adolygiad Tranche, sy'n cynnig adolygiad mwy strategol o gynnydd ac yn nodi'r hyn sy'n gweithio ac nad yw'n gweithio, ac yn ystyried gweithgarwch newydd posibl. Cwblheir yr adolygiadau hyn mewn cyd-gyfarfod rhwng y Tîm Arweinyddiaeth Uwch a'r Cabinet, sy'n adolygu perfformiad y Cynllun Corfforaethol yn ei gyfanrwydd.

41 Cwblheir yr adolygiad o berfformiad y Cynllun Corfforaethol bob tri mis. Fe'i cyflwynir ddwywaith y flwyddyn gan y Tîm Arweinyddiaeth Uwch, y Cabinet a Chraffu ar Berfformiad, ac unwaith y flwyddyn gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor Llawn.

42 Mae'r trefniadau hyn yn caniatáu i'r Cyngor ddeall cynnydd yn erbyn ei amcanion.

## Dysgu gwersi

43 Adolygwyd y Cynllun Corfforaethol a'r gyfres o amcanion llesiant blaenorol yn ffurfiol a hysbysodd canfyddiadau'r gwerthusiad hwn y prosesau a ddefnyddiwyd ar gyfer pennu a monitro'r amcanion presennol.

44 Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflwyno cyfleoedd i adolygu a nodi gwersi a ddysgwyd yn rhan o'r gwaith parhaus o fonitro amcanion a gweithgarwch prosiect. Mae hyn wedi'i ysgrifennu mewn canllawiau rheoli prosiect a'r Cylch Gorchwyl ar gyfer Byrddau amcanion ac yn gysylltiedig â sut y gweithredir yr egwyddor datblygu cynaliadwy.

45 Mae'r Cyngor eisoes wedi adolygu ei broses ymgysylltu ar gyfer pennu ei amcanion llesiant ac wedi nodi'r angen i gynyddu ei gyfradd ymateb ac ymgysylltu'n uniongyrchol â thrigolion â nodweddion gwarchodedig.

# Argymhellion

**Arddangosyn 2: argymhellion**

**Ymgysylltu â thrigolion**

A1 I wella sut mae'r Cyngor yn manteisio ar safbwyntiau'r ystod lawn o drigolion wrth ddylunio ei amcanion llesiant, dylai'r Cyngor:

- dargedu trigolion nas clywir yn aml a'r rhai â nodweddion gwarchodedig yn rhagweithiol; a
- cheisio cynyddu nifer y trigolion y mae'n ymgysylltu â nhw.

# Atodiad 1

## Cwestiynau allweddol a'r hyn y chwiliwyd amdano gennym

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiwn yr oeddem yn ceisio ei ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â rhai is-gwestiynau i arwain ein casglu tystiolaeth. Maent yn seiliedig ar y dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi'u defnyddio o'r blaen yn ein harchwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy, a ddatblygwyd trwy ymgysylltu â chyrff cyhoeddus ac a gafodd eu llywio gan gyngor ac arweiniad gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Nid rhestr wirio yw'r rhestr hon, ond yn hytrach set o nodweddion darluniadol sy'n disgrifio sut beth allai da edrych.

| **I ba raddau y mae'r corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant newydd?** | |
|---|---|
| **Cynllunio: A oedd y broses a roddwyd ar waith gan y corff i bennu ei amcanion llesiant yn seiliedig ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy?** | |
| **A yw'r corff wedi defnyddio data a gwybodaeth arall i ddeall anghenion, risgiau a chyfleoedd a sut y gallent newid dros amser?** | • Mae gan y corff asesiad clir a chytbwys o gynnydd yn erbyn amcanion llesiant blaenorol a ddefnyddiwyd i lywio dealltwriaeth y corff o'r angen 'fel y mae'/tymor byr.<br>• Mae'r corff wedi pennu amcanion llesiant yn seiliedig ar ddealltwriaeth dda o angen, risg a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddi tueddiadau'r dyfodol. Mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei dynnu o amrywiaeth o ffynonellau lleol a chenedlaethol, megis:<br>– Asesiadau llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus<br>– Asesiadau poblogaeth Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol<br>– Canlyniadau ymarferion ymwneud/ymgynghori lleol<br>– Monitro a chwynion gwasanaethau<br>– Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol<br>– Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol Cyfoeth Naturiol Cymru (SoNaRR) ar gyfer Asesiadau Cymru ac Ardaloedd<br>• Mae'r corff wedi ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel y gall fynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau rhwng cenedlaethau trwy ei amcanion llesiant. |

| I ba raddau y mae'r corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant newydd? | |
|---|---|
| **Cynllunio: A oedd y broses a roddwyd ar waith gan y corff i bennu ei amcanion llesiant yn seiliedig ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy?** | |
| **A yw'r corff wedi cynnwys eraill i ddatblygu ei amcanion llesiant?** | • Mae'r corff yn defnyddio canlyniadau cyfranogiad i helpu i ddewis ei amcanion llesiant. Mae'r ymglymiad hwnnw – boed yn gynradd, eilaidd neu'n gyfuniad – yn adlewyrchu amrywiaeth lawn y boblogaeth.<br>• Mae cyfranogiad yn adlewyrchu arfer da a chyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. |
| **A yw'r corff wedi ystyried sut y gall yr amcanion wella llesiant a chael effaith eang?** | • Mae'r amcanion llesiant wedi'u cynllunio i wella llesiant yn yr ystyr ehangaf a gwneud cyfraniad ar draws y saith nod llesiant cenedlaethol.<br>• Mae'r amcanion llesiant wedi'u cynllunio i adlewyrchu a manteisio ar y cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd gwaith.<br>• Mae dealltwriaeth ddatblygedig o sut mae'r amcanion llesiant yn effeithio ar, neu'n ymwneud â'r hyn y mae cyrff cyhoeddus eraill yn ceisio ei gyflawni a chyfleoedd i weithio gyda'i gilydd. |
| **A yw'r corff wedi dylunio'r amcanion i sicrhau manteision tymor hwy, wedi'u cydbwyso â diwallu anghenion tymor byr?** | • Mae'r corff wedi gosod amcanion sy'n ddigon uchelgeisiol ac sydd wedi'u cynllunio i yrru gweithgaredd ar draws y sefydliad.<br>• Mae'r amcanion wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion tymor byr a thymor hir. Pan osodir amcanion dros amserlen fer i ganolig, fe'u gosodir yng nghyd-destun ystyriaethau neu uchelgeisiau tymor hwy. |

| **I ba raddau y mae'r corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant newydd?** | |
|---|---|
| **Adnoddau a chyflawni: A yw'r corff wedi ystyried sut y bydd yn sicrhau y gall gyflawni ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy?** | |
| **A yw'r corff wedi ystyried sut y gall roi adnoddau i'r amcanion llesiant?** | • Dyrannwyd adnoddau i sicrhau y gellir cyflawni'r amcanion dros y tymor byr a'r tymor canolig, ond mae'r corff hefyd wedi ystyried adnoddau tymor hwy, risgiau a/neu sut y gall ddarparu adnoddau ar gyfer amcanion tymor hwy.<br>• Mae'r corff wedi dyrannu adnoddau i sicrhau buddion ataliol, lle mae'r rhain yn cael eu disgrifio yn ei amcanion llesiant. |
| **A yw'r corff wedi ystyried sut y gall weithio gydag eraill i gyflawni eu hamcanion?** | • Mae'r corff yn defnyddio ei wybodaeth am amcanion/gweithgarwch partneriaid, ei berthnasoedd a'i drefniadau cydweithredol i sicrhau y gall gyflawni uchelgeisiau trawsbynciol. |

| I ba raddau y mae'r corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant newydd? | |
|---|---|
| **Monitro ac adolygu: A yw'r corff wedi sefydlu trefniadau i fonitro cynnydd a gwella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu ei amcanion llesiant?** | |
| **A yw'r corff wedi datblygu mesurau a threfniadau monitro priodol?** | • Mae mesurau perfformiad wedi'u cynllunio i adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, e.e. drwy ganolbwyntio ar ganlyniadau sy'n torri ar draws ffiniau adrannol/sefydliadol ac sy'n sicrhau buddion lluosog (gan gynnwys ataliol) dros y tymor hwy.<br>• Mae 'edau aur' a fydd yn caniatáu i'r corff adrodd yn glir ac yn dryloyw ar gynnydd i gyflawni'r amcanion. |
| **A yw'r corff yn ceisio dysgu oddi wrth a gwella sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i bennu ei amcanion llesiant?** | • Mae'r corff yn dangos hunanymwybyddiaeth ac ymrwymiad i wella sut mae'n cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel y gall wneud hynny mewn ffordd ystyrlon ac effeithiol.<br>• Mae'r corff wedi dysgu o bennu amcanion llesiant blaenorol a thrwy gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn fwy cyffredinol ac mae wedi gwella'r broses ar gyfer pennu ei amcanion llesiant newydd.<br>• Mae gan y corff gynlluniau i fyfyrio ar sut y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn y cylch hwn o bennu amcanion llesiant, neu'n bwriadu gwneud hynny. |

Archwilio Cymru
Ffôn: 029 2032 0500
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.